**YR ADRAN ADDYSG A PHLANT**

# DOGFEN YMGYNGHORI

Ymgynghoriad ynghylch y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Parc y Tywyn o 4–11 i 3–11

***Ein Gweledigaeth....Cymuned yw Sir Gaerfyrddin lle mae'r plant yn ddiogel ac yn cael eu meithrin, a lle rhoddir cefnogaeth i ddysgwyr o bob oedran gyflawni eu potensial addysgol llawn***

**Tachwedd 6, 2017**

**Gareth Morgans**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**

**Yr Adain Moderneiddio Ysgolion**

**Simon Davies,** Rheolwr Gwasanaethau Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

E-bost: **aaprma@sirgar.gov.uk**

Ffôn: 01267 246475

## Rhagair

Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau'r lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgolion ac i hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisïau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Yn ein hymgyrch i wella'n barhaus y gwasanaethau sydd ar gael i bob dysgwr, mae'n ofynnol ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor, ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phawb sydd â chyfraniad i'w wneud i'r broses ddysgu ac i les plant a'u teuluoedd. Bydd angen i ysgolion y dyfodol fod yn ganolbwynt ar gyfer ystod eang o wasanaethau a drefnwyd yn bwrpasol i fodloni anghenion y gymuned mewn modd cydgysylltiedig.

Yn ffodus iawn mae gan Sir Gaerfyrddin lawer o athrawon dawnus iawn, ond mae'r newidiadau parhaus a wneir i'r cwricwlwm yn rhoi pwysau mawr ar eu sgiliau i fodloni galwadau hynod amrywiol pob plentyn. Er mor bwysig yw'r prosesau dysgu a'r sgiliau addysgu, mae'n hanfodol fod gan athrawon wybodaeth drylwyr am bynciau os yw dysgwyr, â'u hamrywiol ddoniau mewn gwahanol feysydd, i ddarganfod eu galluoedd a'u datblygu i'r eithaf.

Mae disgwyl i'r ysgolion hynny a gynlluniwyd fel eu bod yn bodloni'r galwadau presennol ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddulliau addysgu sy'n ysbrydoledig ac o safon uchel. Wrth gynllunio darpariaeth newydd bydd yn bwysig sicrhau bod ein hysgolion yn cynnwys yr offer priodol i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol, datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a dwyieithrwydd. Yn ymarferol, mae gofyn inni sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu patrymau newidiol y boblogaeth a bod ysgolion yn y mannau iawn a bod ganddynt adeiladau a chyfleusterau sy'n addas i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd yr ymgynghori'n dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys partïon penodol sydd â diddordeb. Bwriedir i'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon egluro'r cynigion ynghylch eich ysgol a chynorthwyo'r broses ymgynghori.



**Gareth Morgans**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**

# Rhestr Byrfoddau

| | |
|---|---|
| **ADY** | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **ALl** | Awdurdod Lleol |
| **CALL** | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| **CC** | Cyfrwng Cymraeg |
| **CC** | Cynradd Cymunedol |
| **CS** | Cyfrwng Saesneg |
| **CSC** | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **CYBLD** | Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| **DFf** | Dwy Ffrwd |
| **Estyn** | Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **LlC** | Llywodraeth Cymru |
| **MCYC** | Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru |
| **ND** | Nifer derbyn |
| **NOR** | Nifer y disgyblion ar y gofrestr |
| **RhMA** | Rhaglen Moderneiddio Addysg |
| **WESP** | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |

# Cynnwys


| Rhif | Pwnc | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Rhagarweiniad | 6 |
| 2. | Y Cefndir | 8 |
| 3. | Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni? | 11 |
| 4. | Gwybodaeth Gyffredinol | 14 |
| 5. | Ysgol Parc y Tywyn | 17 |
| 6. | Y Broses Statudol | 25 |
| 7. | Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned | 27 |
| 8. | Atodiad B – Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg | 30 |
| 9. | Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 31 |
| 10. | Atodiad D – Proffil Ardal | 36 |
| 11. | Atodiad E - Ffurflen Ymateb | 40 |

# 1. Rhagarweiniad

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar Gyngor Sir Caerfyrddin i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn yr ardal ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Fel rhan o'r broses hon mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran holl ysgolion cynradd y Sir. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ynghylch y trefniadau addysg yn y dyfodol yn Ysgol Parc y Tywyn. Mae'r cynigion ynghylch newid a gaiff eu nodi yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r amcan tymor hir hwnnw.

Mae'r ddogfen hon yn ceisio symbylu'r broses ymgynghori drwy egluro'r dewis a ffafrir gan yr Awdurdod ar gyfer darparu addysg gynradd i ddisgyblion **Ysgol Parc y Tywyn** yn y dyfodol. Mae'r ddogfen yn cynnig cyfle i ymgyngoreion gyflwyno unrhyw sylwadau neu gynigion eraill yr hoffent iddynt gael eu hystyried.

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a bydd yn cynnwys partïon penodol sydd â diddordeb.

Prif ddiben y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth a chasglu sylwadau'r partïon penodol sydd â diddordeb. Efallai y carech ddefnyddio'r ffurflen ymateb a geir yn **Atodiad E** y ddogfen hon neu drwy anfon neges e-bost at: **aaprma@sirgar.gov.uk** er mwyn cyflwyno unrhyw ymateb.

## 1.1 Y Broses Ymgynghori

Bydd y broses ymgynghori yn cael ei hamlinellu'n fanwl yn **adran 6** y ddogfen ymgynghori hon. Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 1.2 Pwy arall yr ymgynghorir â nhw?

Anfonwyd y ddogfen hon at y bobl ganlynol sydd â diddordeb:

| | |
|---|---|
| Staff (Athrawon a Staff Atodol)<br>Ysgol Parc y Tywyn | Llywodraethwyr a Rhieni<br>Ysgol Parc y Tywyn |
| Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin<br>**Gofal Plant / Y Blynyddoedd Cynnar<br>Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Cynghorwyr Cymuned<br>Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn |
| Cynghorwyr Sir Lleol | Comisiynydd y Gymraeg |
| Yr Aelod Cynulliad (AC)<br>Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |

| | |
|---|---|
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon (PAT) |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | Undeb y GMB |
| UNSAIN | *Yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos yn Sir Gaerfyrddin |
| Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (T&G) | Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol |
| Cyfarwyddwyr Addysg - yr holl Awdurdodau Cyfagos | ERW – Ein Rhanbarth ar Waith |
| Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) | Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Lleol | Gweinidogion Llywodraeth Cymru |
| Estyn | Y Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol |
| Dechrau'n Deg | |

***Dogfen ymgynghori a anfonwyd at Benaethiaid a Chadeirydd Llywodraethwyr yr ysgolion canlynol - **Ysgolion Cynradd** - Ysgol Gynradd Gymunedol Porth Tywyn, Ysgol Pen-bre, Ysgol Trimsaran, Ysgol y Castell ac Ysgol Gwenllian, ac **Ysgolion Uwchradd** - Ysgol Glan-y-Môr ac Ysgol y Strade.

**** Gan gynnwys Mudiad Ysgolion Meithrin ac unrhyw feithrinfa breifat neu warchodwr plant lleol**

### 1.3 Ymgynghori â'r Disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion Ysgol Parc y Tywyn gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir darpariaeth Gofal Plant / Blynyddoedd Cynnar yr Adran Addysg a Phlant.

yn yr ysgol gyda'r Ymgynghorydd Her.

### 1.4 Y Cyfnod Ymgynghori

Bydd modd i chi fynegi eich barn rhwng **Tachwedd 6, 2017** a **Rhagfyr 17, 2017.**

Gallwch fynegi eich barn trwy ysgrifennu llythyr neu trwy lenwi'r ffurflen ymateb a geir yn **Atodiad E** ac anfon y llythyr/ffurflen i'r Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB, neu trwy anfon e-bost i: **aaprma@sirgar.gov.uk** erbyn canol dydd, **Rhagfyr 17, 2017** fan pellaf.


## 2. Y Cefndir

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn a bodloni dyheadau Llywodraeth Cymru fel y'u pennir yn eu dogfennau strategol e.e. *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg.*

Mae darparu addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn allweddol er mwyn gwireddu'r uchelgais hon.

Ystod oedran yr ysgol hon ar hyn o bryd yw 4-11.

Amlinellir dalgylch Ysgol Parc y Tywyn mewn glas isod. Mae'r ysgol yn rhannu'r un dalgylch ag Ysgol Gymunedol Porth Tywyn ac Ysgol Pen-bre.




Gellir gweld y cysylltiad rhwng dalgylchoedd ysgolion cynradd Parc y Tywyn, Pen-bre a Phorth Tywyn yn y map uchod, gyda dalgylch Pen-bre i'r gorllewin o Ysgol Parc y Tywyn a dalgylch Porth Tywyn i'r dwyrain o ddalgylch Ysgol Parc y Tywyn.

Caiff Ysgol Gymunedol Porth Tywyn ac Ysgol Pen-bre eu categoreiddio fel ysgolion cyfrwng Saesneg. Yr ystod oedran yn yr ysgolion yw 3 - 11, felly darperir darpariaeth feithrin yn y ddwy ysgol.

Mae'r cynnig hwn yn ceisio safoni'r addysg feithrin ar gyfer yr ardal drwy sicrhau bod yr un lefel o ddarpariaeth yn cael ei darparu ar gyfer yr **ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r ysgolion cyfrwng Saesneg.**

## Y sefyllfa bresennol yn Sir Gaerfyrddin

Cynigir darpariaeth ddynodedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar mewn ***36 ysgol*** ledled y Cyngor Sir.

| Ysgol: | Ystod Oedran |
|---|---|
| Y Betws | 3-11 oed |
| Bigyn | 3-11 oed |
| Bro Brynach | 3-11 oed |
| Y Bryn | 3-11 oed |
| Bryn Teg | 3-11 oed |
| Brynaman | 3-11 oed |
| Brynsierfel | 3-11 oed |
| Porth Tywyn | 3-11 oed |
| y Bynea | 3-11 oed |
| Cross Hands | 3-11 oed |
| Dafen | 3-11 oed |
| Dewi Sant | 3-11 oed |
| Ysgol Gymraeg Ffwrnes | 3-11 oed |
| Griffith Jones | 3-11 oed |
| Gwenllian | 3-11 oed |
| Halfway | 3-11 oed |
| Tre Ioan | 3-11 oed |
| Llan-gain | 3-11 oed |
| Llangynnwr | 3-11 oed |
| Maes y Morfa | 3-11 oed |
| Model | 3-11 oed |
| Myrddin | 3-11 oed |
| Nantgaredig | 3-11 oed |
| Pen-bre | 3-11 oed |
| Pen Rhos | 3-11 oed |
| Pen-y-Gaer | 3-11 oed |
| Pwll | 3-11 oed |
| Parc Waundew | 3-11 oed |
| Y Santes Fair, Llanelli | 3-11 oed |
| Y Santes Fair, Caerfyrddin | 3-11 oed |
| Stebonheath | 3-11 oed |
| Teilo Sant | 3-11 oed |
| Trimsaran | 3-11 oed |
| Ysgol y Bedol | 3-11 oed |
| Y Castell | 3-11 oed |
| Y Dderwen | 3-11 oed |

Mae Ysgol Feithrin Rhydaman yn darparu ar gyfer Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman.

- Ceir ***65 ysgol*** yn Sir Gaerfyrddin sydd heb ddarpariaeth ddynodedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar.
- Cynigir Darpariaeth Ddysgu Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar mewn **47 o leoliadau nas cynhelir** yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Parc y Tywyn yn ffurfiol o 4-11 i 3-11 o ddechrau tymor yr hydref 2018/19, er mwyn medru ymgorffori'r ddarpariaeth feithrin yn adeilad newydd yr ysgol.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor Sir i edrych ar nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn Sir Gaerfyrddin, ac mae'n ofynnol iddo sicrhau eu bod yn y man iawn a bod ganddynt y cyfleusterau iawn ar gyfer y dyfodol a'r adnoddau iawn i ddarparu addysg a dysgu i ddisgyblion. Credwn fod ein disgyblion a'n staff yn haeddu hyn.

Mae'r newidiadau yn y cwricwlwm ac yn y modd y caiff plant eu haddysgu yn y dyfodol hefyd yn golygu bod rhaid i ni ystyried p'un a oes modd adolygu ystod oedran ysgolion y Sir er mwyn diwallu anghenion y disgyblion yn y dyfodol.

## 3. Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?

Rydym yn ceisio safoni'r ddarpariaeth feithrin yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg fel ei gilydd yn ardaloedd Porth Tywyn a Phen-bre. Bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn symud yn ddi-dor o addysg feithrin i addysg gynradd yn y sector Cyfrwng Cymraeg.

Darperir darpariaeth Meithrin ar gyfer y gymuned ar hyn o bryd gan feithrinfeydd a gwarchodwyr plant sy'n cael eu rhedeg yn breifat. Er bod y ddarpariaeth o ansawdd uchel, ym marn yr awdurdod bydd cyflwyno Meithrinfa sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol yn galluogi dull mwy integredig o addysgu plant bach.

Bydd y ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg i blant mewn Ysgol Gynradd 3-11 oed yn caniatáu i blant bach yn yr ardal symud ymlaen yn ddidrafferth o ddarpariaeth feithrin i'r Cyfnod Sylfaen.

Bydd y manteision o wneud y newid hwn yn sicrhau dilyniant parhaus, gan ddarparu modd i blant symud ymlaen yn ddi-dor o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd ac o'r ysgol gynradd i addysg uwchradd. Mae'n wybyddus bod plant yn elwa'n addysgol o gael cyn lleied o gamau trosglwyddo â phosibl.

Ar gyfartaledd ychydig iawn o Gymraeg, os o gwbl, sydd gan 75% o'r disgyblion sy'n cyrraedd Ysgol Parc y Tywyn gan mai nad dyma'r iaith a siaredir gartref. Bydd y cynnig hwn yn trochi'r disgyblion hyn yn gynharach yn y Gymraeg.

Bydd disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd yn elwa'n fawr o hyn. Bydd Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol arbenigol ar gael i helpu rhieni i gael mynediad at wasanaethau angenrheidiol ac i'w cynghori ynglŷn â sut i helpu eu plant i ddechrau ar eu haddysg ffurfiol heb fod dan anfantais o fewn eu carfanau.

Mae'n bwysig fod disgyblion Ysgol Parc y Tywyn yn dechrau ar eu continwwm addysgol ar gam cynharaf y ddarpariaeth. Bydd yr holl ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol y Strade ac yn parhau â'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n hollbwysig fod disgyblion yn dechrau yn Ysgol Parc y Tywyn cyn gynted â phosibl, i sicrhau fod eu taith addysgol mor llwyddiannus ag sy'n bosibl ac er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial llawn.

### Casgliad

Er mwyn cynorthwyo'r broses o symud disgyblion yn ddi-dor drwy'r Ysgol Feithrin ac i'r Ysgol Gynradd, ystyrir ei bod yn hanfodol fod y Cyngor Sir yn ymestyn ystod oedran Ysgol Parc y Tywyn o 4-11 i 3-11, yn unol â'r llinell amser a

amcangyfrifir ar hyn o bryd ar gyfer cwblhau adeilad newydd Ysgol Parc y Tywyn.

Bydd y cynnig hwn yn mynd i'r afael â'r gwahaniaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng y ddarpariaeth feithrin Gymraeg a'r ddarpariaeth feithrin Saesneg a gynigir yn yr ardal hon. Bydd hyn hefyd yn dod ag Ysgol Parc y Tywyn yn unol â'r holl ysgolion cynradd Cyfrwng Cymraeg eraill yn ardal Llanelli (Ysgol Gymraeg Ffwrnes, Ysgol Gymraeg Brynsierfel ac Ysgol Dewi Sant), sydd yn cynnig darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg.

## 3.2 Opsiynau eraill a ystyriwyd

### Opsiwn 1

Parhau â'r trefniant presennol

Ystyriwyd bod hyn yn niweidiol i Ysgol Parc y Tywyn oherwydd na fyddai'n cynnig yr un lefel o ddarpariaeth Feithrin ag ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sydd yn rhannu'r un dalgylch, a'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sydd yn y cyffiniau.

### Opsiwn 2

Darparu darpariaeth Feithrin mewn ysgolion cyfagos.

Yn debyg i opsiwn 1 ni fyddai'n mynd i'r afael â'r broblem o fethu rhoi'r opsiwn i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Porth Tywyn a Phen-bre fynychu meithrinfa ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y dalgylch.

### Opsiwn 3

Creu meithrinfa cyfrwng Cymraeg annibynnol ar gyfer dalgylch Porth Tywyn a Phen-bre.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cynnig manteision y trosglwyddiad di-dor a sicrhau parhad dilyniant o addysg Feithrin i addysg Gynradd.

### 3.3 Manteision ac Anfanteision

### Mae'r manteision fel a ganlyn:

Gwneud yn siŵr bod yr un ddarpariaeth feithrin Cymraeg a Saesneg ar gael i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Porth Tywyn a Phen-bre.

Gwneud yn siŵr bod yr un ddarpariaeth Feithrin cyfrwng Cymraeg ar gael i ddisgyblion sy'n byw yn Llanelli a'r ardaloedd cyfagos.

Dilyniant di-dor o'r feithrinfa i'r ysgol gynradd ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n byw yn ardaloedd Porth Tywyn a Phen-bre.

Cyfle i gael gwaith yn Ysgol Parc y Tywyn.

### Mae'r anfanteision fel a ganlyn:

Gostyngiad yn y galw am leoedd yn y Meithrinfeydd preifat a chyda gwarchodwyr plant sy'n darparu'r ddarpariaeth ar hyn o bryd.

Diweithdra oherwydd y diffyg galw yn y meithrinfeydd preifat a chyda gwarchodwyr plant.

### 3.4 Risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn

| Risk | Counter Measure |
|---|---|
| Methu cael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig | Dilyn y canllawiau fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013 |
| Integreiddio disgyblion meithrin i'r ysgol | Bydd yr Awdurdod yn gweithio i sicrhau bod integreiddio esmwyth i'r ysgol |

### 3.5 Staffio

Bydd goblygiadau staffio i Ysgol Parc y Tywyn o ran penodi staff addysgu a chymorth ychwanegol ar gyfer y feithrinfa. Gellir rheoli hyn yn effeithiol trwy drefniadau recriwtio staff presennol.


## 4. Gwybodaeth Gyffredinol

### Ysgolion / Darpariaethau Meithrin y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt

Mae dalgylch Ysgol Parc y Tywyn wedi'i amgylchynu gan yr ysgolion cynradd cymunedol canlynol:

Ysgol Gynradd Gymunedol Porth Tywyn, Porth Tywyn
Ysgol Pen-bre, Pen-bre
Ysgol Trimsaran, Trimsaran
Ysgol y Castell, Cydweli
Ysgol Gwenllian, Cydweli
Ysgol Pwll, Pwll, Llanelli
Ysgol Gymraeg Ffwrnes, Ffwrnes, Llanelli

**<u>Mae'r diagram canlynol yn dangos dalgylchoedd yr ysgolion</u>**



| Enw'r Ysgol | Y Math o Ysgol | Categori Iaith | Nifer Derbyn | Nifer y Lleoedd (fel yn Ionawr 2017) | Cyfanswm Nifer (Amser Llawn) CYBLD, Ion 2017 | Ystod Oedran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Porth Tywyn | Gynradd Gymunedol | CS | 30 | 240 | 207 | 3 - 11 |
| Pen-bre | Gynradd Gymunedol | CS | 30 | 240 | 235 | 3 – 11 |
| Trimsaran | Gynradd Gymunedol | CC | 30 | 240 | 172 | 3 – 11 |
| Y Castell | Gynradd Gymunedol | CS | 30 | 244 | 267 | 3 – 11 |
| Gwenllian | Gynradd Gymunedol | CC | 18 | 141 | 129 | 3 – 11 |
| Pwll | Gynradd Gymunedol | CS | 15 | 123 | 92 | 3 – 11 |
| Gymraeg Ffwrnes | Gynradd Gymunedol | CC | 60 | 480 | 398 | 3 – 11 |

## 4.2 Nifer y Disgyblion mewn Addysg Amser Llawn (yn cynnwys Meithrinfa) (Ysgolion Cyfagos)

Mae'r tabl a'r graff isod yn dangos nifer y disgyblion mewn addysg amser llawn (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2017) ar gyfer Ysgol Parc y Tywyn, Ysgol Pen-bre, Ysgol Gynradd Gymunedol Porth Tywyn, Ysgol Trimsaran, Ysgol y Castell ac Ysgol Gymraeg Gwenllian, ar gyfer mis Ionawr 2017 a'r niferoedd a ragamcanir ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

| Ysgol | Nifer y lleoedd (Yn cynnwys Meithrinfa) | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2017 (Yn cynnwys Meithrin-fa) | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2018 (Yn cynnwys Meithrin-fa) | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2019 (Yn cynnwys Meithrin-fa) | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2020 (Yn cynnwys Meithrin-fa) | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2021 (Yn cynnwys Meithrin-fa) | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2022 (Yn cynnwys Meithrin-fa) | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2023 (Yn cynnwys Meithrin-fa) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Porth Tywyn | 240 | 207 | 213 | 211 | 213 | 216 | 204 | 211 |
| Pen-bre | 240 | 235 | 230 | 218 | 201 | 201 | 198 | 205 |
| Trimsaran | 240 | 172 | 176 | 176 | 181 | 187 | 184 | 182 |
| Y Castell | 244 | 267 | 260 | 255 | 249 | 251 | 254 | 254 |
| Gwenllian | 141 | 129 | 132 | 129 | 129 | 133 | 133 | 132 |
| Pwll | 123 | 92 | 96 | 99 | 100 | 103 | 105 | 103 |
| Gymraeg Ffwrnes | 480 | 398 | 410 | 426 | 432 | 438 | 431 | 433 |

Mae'r tabl yn cynnwys data disgyblion Cyfwerth ag Amser Llawn.

## 4.3 Darpariaethau meithrin

**Bydd y cynnig hwn yn cael effaith andwyol ar gyflogaeth i ddarparwyr preifat lleol gan fod darpariaeth ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu ar gyfer plant 3 oed gan feithrinfeydd lleol a gwarchodwyr plant**

| Math | Enw'r Darparwr |
|---|---|
| Gofal Dydd Llawn | Meithrinfa Hapus Dyrfa |
| Gofal Dydd Llawn | Serendipity Day Nursery |
| Gofal Dydd Llawn/ Gofal Sesiynol | Cylch Meithrin Porth Tywyn |
| Dechrau'n Deg Porth Tywyn | Hapus Dyrfa |
| Dechrau'n Deg Pen-bre | Serendipity |
| Cylch Meithrin | Burry Port Community Primary |
| Gwarchodwr Plant | Mrs Christine Park |
| Gwarchodwr Plant | Mrs Heather Heather |

## 5. Ysgol Parc y Tywyn

### 5.1 Rhagamcaniad o Nifer y Disgyblion

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer gwirioneddol y disgyblion yn Ysgol Parc y Tywyn ym mis Ionawr 2017 a nifer y disgyblion a ragamcanir yn yr ysgol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

| Ysgol | Nifer y lleoedd (Yn cynnwys Meithrin-fa) | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2017 | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2018 | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2019 (Yn cynnwys Meithrin-fa) | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2020 (Yn cynnwys Meithrin-fa) | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2021 (Yn cynnwys Meithrin-fa) | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2022 (Yn cynnwys Meithrin-fa) | Cyfan-swm Dis-gyblion Amser Llawn 2023 (Yn cynnwys Meithrin-fa) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Parc y Tywyn** | **323~/315** | **262~** | **272~** | **308** | **306** | **296** | **299** | **304** |

~ Nid yw'r adeilad presennol yn cynnwys meithrinfa.

### 5.2 Nifer y Disgyblion yn Hanesyddol


#### 5.2.1 Tueddiadau Cyfredol

Mae'r tabl a'r graff isod yn dangos nifer y disgyblion ym mis Ionawr 2017 a'r chwe blynedd flaenorol.

| | 2 oed (RhA) | 2 oed (LlA) | 3 oed (RhA) | 3 oed (LlA) | 4 oed (RhA) | 4 oed (LlA) | 5 oed | 6 oed | 7 oed | 8 oed | 9 oed | 10 oed | Cyfans wm (Disg-yblion) | Cyfans wm (mewn Addysg Amser Llawn) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Ion 17 | 0 | 0 | 0 | 18 | 0 | 44 | 30 | 31 | 42 | 35 | 37 | 25 | 262 | 262 |
| *Ion 16 | 0 | 0 | 0 | 22 | 0 | 28 | 30 | 41 | 35 | 40 | 25 | 31 | 252 | 252 |
| *Ion 15 | 0 | 0 | 0 | 10 | 0 | 29 | 41 | 35 | 41 | 24 | 31 | 29 | 240 | 240 |
| *Ion 14 | 0 | 0 | 0 | 16 | 0 | 36 | 36 | 39 | 24 | 31 | 29 | 32 | 243 | 243 |
| *Ion 13 | 0 | 0 | 0 | 22 | 0 | 38 | 40 | 27 | 31 | 31 | 34 | 30 | 253 | 253 |
| *Ion 12 | 0 | 0 | 0 | 18 | 0 | 41 | 29 | 31 | 34 | 33 | 32 | 29 | 247 | 247 |
| *Ion 11 | 0 | 0 | 0 | 24 | 0 | 28 | 32 | 34 | 34 | 33 | 30 | 29 | 244 | 244 |

*Oedran y disgyblion fel ar 31 Awst y flwyddyn flaenorol.

Gellir gweld o'r wybodaeth uchod a'r graff canlynol fod nifer y disgyblion wedi aros yn gyson uchel.




## 5.3 Gwybodaeth am Nifer y Lleoedd ar gyfer Disgyblion

Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfrifo llefydd ysgol yn ôl â chanllawiau Llywodraeth Cymru. "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru".

| | Cyfanswm Gwirioneddol Disgyblion (Amser Llawn) Ion 2017 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ion 2017* | Ion 2018* | Ion 2019 | Ion 2020 | Ion 2021 | Ion 2022 |
| Rhagamcanion - cyfanswm disgyblion | 262* | 272* | 309 | 306 | 296 | 299 |
| **Nifer y Lleoedd (Meithrin + Cynradd)** | 323* | 323* | 360 (45 + 315) | 360 (45 + 315) | 360 (45 + 315) | 360 (45 + 315) |
| **Lleoedd gwag** | 61* | 51* | 51 | 54 | 64 | 61 |

* Nid yw'r adeilad presennol yn cynnwys meithrinfa.
Mae'r tabl isod yn ddadansoddiad o oblygiadau darparu lleoedd i ddisgyblion meithrin yn yr ysgol.

Fel y gwelir, mae adeilad newydd Ysgol Parc y Tywyn wedi cael ei gynllunio i sicrhau bod yna ddigon o le yn yr ysgol i ganiatáu cynnydd yn nifer y disgyblion yn y dyfodol.

## 5.4 Ansawdd a Safon yr addysg

Cynhaliwyd yr arolygiad Estyn diweddaraf o Ysgol Parc y Tywyn ym mis Ionawr 2012.

**Y Cyd-destun**

'Mae Ysgol Parc y Tywyn yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref Porth Tywyn a'r ardal o'i hamgylch. Fe'i lleolir ar gyrion y dref, yng nghanol ystâd o dai cyngor ger yr ysgol uwchradd leol. Yn ôl yr ysgol mae'n ardal sydd yn datblygu yn economaidd gyda datblygiadau diweddar ym myd twristiaeth a hamdden. Mae naw y cant o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a chyfartaledd yr awdurdod addysg.

Derbynia 24% o'r disgyblion gymorth anghenion addysg ychwanegol, canran sydd ychydig yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol.
Mae gan dri disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.
Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol ers yr arolygiad diwethaf.

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'r rhagolygon gwella.

Yn y gwerthusiadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Dyfarniad** | **Beth mae'r dyfarniad yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Digonol – Mae'r cryfderau'n drech na'r meysydd sydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau. |

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

**Prif Ganfyddiadau**

| | | |
|---|---|---|
| Cwestiwn Allweddol 1. | Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
| Cwestiwn Allweddol 2. | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
| Cwestiwn Allweddol 3. | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |

Effaith y cynnig hwn fyddai integreiddio meithrinfa yn Ysgol Parc y Tywyn. Ym marn yr Awdurdod bydd hyn yn gwella'r amgylchedd a'r profiad dysgu. Byddai'n darparu Cyfnod Sylfaen mwy cydlynol ar gyfer y dysgwyr ifanc. Byddai hyn yn cael ei wneud trwy ddileu'r cam pontio rhwng y ddarpariaeth feithrin a derbyn, a thrwy gael parhad o ran staffio a throsglwyddo data ar gyfer disgyblion unigol, yn enwedig o ran addysgu disgyblion 3–11 oed, gofalu amdanynt a chynnig cymorth iddynt, a darparu'r cyfleoedd dysgu mewn ysgol gynradd sengl 3-11 oed fel sy'n digwydd mewn ysgolion cyfagos eraill yn Sir Gaerfyrddin.

Byddai'r ffactorau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiad dysgu'r plant.

**5.5 Safonau'r Ysgolion**

**Y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion**

Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yn cael ei chyflwyno. Nid system sy'n seiliedig ar ddata'n unig ydyw. Mae safon yr arweinyddiaeth, yr addysgu a'r dysgu yn ein hysgolion yn cael eu hystyried hefyd. Ni fydd y system yn disodli adroddiadau Estyn. Bydd Estyn yn parhau i arolygu ysgolion ac wrth wneud hynny bydd y system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn cael ei gwirio ganddo'n allanol.
Mae'r system newydd yn gwerthuso ac yn asesu ysgolion ac yn eu rhoi mewn categori cefnogaeth ar sail y wybodaeth ganlynol:

- Ystod o fesurau perfformiad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Hunanwerthusiad cadarn gan yr ysgol o'i gallu i wella o ran arweinyddiaeth ac o ran addysgu a dysgu.
- Asesiad o hunanwerthusiad yr ysgol gan ymgynghorwyr her yn y consortia rhanbarthol, y cytunwyd arnynt gyda'r Cyngor Sir.

Bydd y system gategoreiddio newydd yn rhoi darlun clir a theg o gynnydd ysgol. Mae pennu categori ysgol yn broses dri cham. Yn gyntaf, ar ôl i'r data

perfformiad a'r hunanwerthusiad gael eu dadansoddi, caiff categori cefnogaeth drafft ei bennu ar gyfer pob ysgol. Caiff y categori hwn ei drafod â'r ysgol gan gonsortia rhanbarthol ac yna cytunir arno gyda'r awdurdod lleol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r data ar gyfer Ysgol Parc y Tywyn:

**Y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion – Data 2016**

| Ysgol | Grŵp Safonau | Gallu'r Ysgol i Wella | Categori Cefnogaeth |
|---|---|---|---|
| Ysgol Parc y Tywyn | 2 | A | Gwyrdd |

Fel y gwelir o'r tabl uchod, caiff Ysgol Parc y Tywyn ei rhoi yn y categori Gwyrdd a dywedir ei bod yn '**ysgol hynod effeithiol**' a gaiff ei '**rhedeg yn dda**', sydd ag '**arweinyddiaeth gref'** ac sydd '**yn glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella**'.

**Leadership and Management**

It is not anticipated that learner outcomes will be adversely affected during the change to the age range from 4-11 to 3-11. Indeed, we are wholly confident that learner outcomes will be enhanced as learners are integrated into an appropriate learning environment from an earlier age. All aspects of provision and outcomes will be monitored in line with the high expectations and processes of our regional school improvement service – ERW.

In addition, the County Council collects and collates learner outcomes on a regular and systematic basis to ensure the frequent monitoring and progression of standards across all core areas of learning. This will continue throughout the proposal of change to ensure that learner outcomes are continuously monitored and not affected as a result of the proposal. Central to this work will be the support and challenge work undertaken by ERW Challenge Advisers within the school. This activity will include a menu of scheduled visits focusing on analyses of pupil outcomes and the quality of teaching provision and learning. It is important to note that the findings of this work are always shared directly with the Governing Body. This ensures the highest levels of whole school accountability are firmly in place in support of learners' outcomes.

ERW Challenge Advisers place much emphasis on a school's ability to demonstrate high levels of 'valued added performance' based on an individual learner's benchmark starting point. This aspect will remain a key feature of the monitoring and review of the school's performance during this period.

## 5.6 Costau fesul Disgybl

Ar sail data 2017/18 y gost gyllidebol fesul disgybl yw £3,166 yn Ysgol Parc y Tywyn, sydd yn is na chyfartaledd y sir sef £3,649.

## 5.7 Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol Parc y Tywyn ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

## 5.8 Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Parc y Tywyn.
40 yw'r nifer derbyn presennol. Pan fydd yr adeilad newydd wedi'i gwblhau bydd y nifer derbyn yn codi i 45.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch derbyn disgybl i'r ysgol mae manylion cyswllt Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

Yr Uned Derbyn i Ysgolion
Cyngor Sir Caerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant
Adeilad 2, Parc Dewi Sant
Caerfyrddin. SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 246449
E-bost : derbyniadau@sirgar.gov.uk

## 5.9 Y Cyfleusterau o ran Adeiladau

Presennol

Adroddodd yr **Arolwg o Gyflwr yr Adeilad a gynhaliwyd ym mis Awst 2001** fod Ysgol Parc y Tywyn 'wedi'i lleoli ar gyrion Porth Tywyn, wedi'i hadeiladu yn y 1970au ar ffurf bloc modiwlaidd o frics gyda tho ar oleddf graddol. Ychwanegwyd ystafelloedd dosbarth terapin i ddarparu cyfleusterau dosbarth ychwanegol'.

'Byddai mynediad i bobl anabl mewn cadair olwyn a phobl rhannol ddall yn bosibl o osod rhai rampiau bychain wrth y drysau mynediad'.

Yn 2010 fel rhan o **asesiad Rhaglen Genedlaethol Ysgolion yr 21ain Ganrif**, cynhaliodd EC Harris arolwg ar ran yr holl ysgolion yng Nghymru. Sgoriodd yr arolwg bob un o adeiladau'r ysgol o ran

1) Cyflwr, 2) Blaenoriaeth a 3) Addasrwydd.

1) Cyflwr – Yn ôl categori o A i D:

A Da (Dim dirywiad)
B Boddhaol (Mân ddirywiad)
**C Gwael (Dirywiad sylweddol)**
D Drwg (Wedi cyrraedd diwedd oes)

2) Blaenoriaeth – Argymhellir amserlen o 1 i 3 ar gyfer gwneud unrhyw waith:

1 Brys (Blwyddyn)
**2 Hanfodol (2 Flynedd)**
3 Dymunol (3 i 5 Blynedd)

3) Addasrwydd – Yn ôl categori o A i D:

A Da (Lefelau addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgolion)
B Rhesymol (Ond yn cael effaith niweidiol ar ymddygiad / morâl a rheolaeth)
**C Gwael (Yn rhwystr i'r dulliau addysgu)**
D Drwg (Sefyllfa ddifrifol a / neu yn methu dysgu'r cwricwlwm)

Cafodd Ysgol Parc y Tywyn ei rhoi yn y categorïau canlynol:

| Cyflwr | Blaenoriaeth | Addasrwydd |
|---|---|---|
| C | 2 | C |

<u>Adeilad Newydd</u>

Pan fydd yr adeilad newydd wedi'i gwblhau disgwylir y bydd yn cael gradd A am Gyflwr yr Adeilad a'r radd uchaf mewn perthynas ag Addasrwydd. Bydd hefyd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o safbwynt mynediad i'r anabl a bydd yn derbyn Tystysgrif Perfformiad Ynni gradd A.

## 5.10 Cludiant

Bydd trefniadau cludiant yn cael eu gwneud yn unol â pholisi'r Cyngor Sir ar gyfer cludo o'r cartref i'r ysgol. Disgwylir y bydd yr amser teithio cyfan ar gyfer disgyblion sy'n byw yn y dalgylch yn lleihau o ganlyniad i'r drefn ffyrdd newydd a wireddwyd fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu Harbwr Porth Tywyn.

## 5.11 Dalgylch yr Ysgol

Bydd yr ysgol yn symud o Heol Elfed i safle ychydig oddi ar Burrows Terrace, sydd lai na milltir o'r safle presennol. Ni fydd dalgylch yr ysgol yn newid.

## 5.12 Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newidiadau yn y trefniadau presennol o ran trosglwyddo disgyblion i addysg Uwchradd.

## 5.13 Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol a gynigir i ddisgyblion ag anghenion dysgu ac addysgol ychwanegol yn yr ysgol.

## 6. Y Broses Statudol

### 6.1 Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ar **Tachwedd 6, 2017** ac yn gorffen ar **Rhagfyr 17, 2017**. Yn ystod y cyfnod hwn gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr neu drwy lenwi'r ffurflen ymateb amgaeedig yn **Atodiad E.** Dylid anfon llythyrau a ffurflenni ymateb i'r cyfeiriad canlynol:
Yr Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB, neu drwy anfon e-bost i: aaprma@sirgar.gov.uk erbyn canol dydd ar **Rhagfyr 17, 2017** fan pellaf.

Gall ymgyngoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgyngoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno isod.

### 6.2 Ystyried eich Sylwadau

O fewn 13 wythnos ar ôl **Rhagfyr 17, 2017** bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynnig.

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a yw am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig, rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad statudol.

### 6.3 Hysbysiad Statudol

Caiff yr hysbysiad statudol ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i arddangos ym mhrif fynedfa'r ysgol a phob mynedfa arall. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, aelodau staff a llywodraethwyr (gall yr ysgol hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau.

### 6.4 Penderfynu ar y Cynnig

Cyngor Sir Llawn Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ynghylch y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Bwrdd Gweithredol hefyd yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

## 6.5 Rhoi gwybod am y penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

## 6.6 Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses a'r amserlen statudol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Tachwedd 6, 2017** (42 Diwrnod) | Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb. |
| **Rhagfyr 17, 2017** | Dyddiad cau'r Adran Addysg a Phlant ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig. |
| | O fewn 13 wythnos ar ôl **Rhagfyr 17, 2017,** bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei roi gerbron y Cyngor Sir a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.<br><br>Penderfynu mynd ymlaen i gyhoeddi'r Hysbysiad Statudol.<br>NEU fod y cynnig yn dod i ben.<br><br>Os gwneir y penderfyniad i fynd ymlaen â'r mater yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff.<br><br>Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.<br><br>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig. |
| **Ebrill 2018** | Diwedd y cyfnod hysbysu ffurfiol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau.<br>Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau a ddaeth i law.<br><br>Y dyddiad olaf o ran rhoi gwybod i'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith. |
| **Gorffennaf 2018** | Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |

# 7. Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Lleolir Ysgol Parc y Tywyn yn Heol Elfed, sydd ar gyrion Porth Tywyn, yng nghanol ystâd o dai cyngor ger yr ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg leol.

Mae Porth Tywyn tua 5 milltir i'r gorllewin o Lanelli.

Ar hyn o bryd mae 262 o ddisgyblion rhwng tair oed (yn mynd yn bedwar) ac 11 ar y gofrestr. Ceir deg o ddosbarthiadau yn yr ysgol. Mae nifer y dosbarthiadau derbyn wedi cynyddu o un i dri i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion. Mae gan tua 10.9% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim.

Ar hyn o bryd ceir 27 o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol. Ceir 2 ddisgybl sydd â datganiad ac ystyrir bod angen Camau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ar 11 disgybl a Chamau Gweithredu gan yr Ysgol ar 14 disgybl.

Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4-11 oed. Pan fydd wedi'i gwblhau bydd lle yn adeilad newydd yr ysgol ar gyfer dosbarth meithrin a fydd yn cynyddu'r ystod oedran i 3-11. Caiff y disgyblion eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgol yn darparu dewis o weithgareddau ar ôl ysgol, yn eu plith amrywiol glybiau sy'n cynnig ystod o weithgareddau awyr agored a chlybiau sy'n datblygu hunanhyder ac annibyniaeth y disgyblion. Ceir darpariaeth dda i sicrhau parhad a dilyniant yng ngwybodaeth y disgyblion am sgiliau sylfaenol a'u dealltwriaeth ohonynt wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r bartneriaeth â'r rhieni a'r gymuned yn nodwedd arbennig ar waith a gweithgareddau'r ysgol.

## Dadansoddiad o'r Dalgylch

### Ysgol Leol / Ysgol Ddalgylch

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod bod yna berthynas bwysig rhwng ysgol a'i chymuned. Felly, mae'r Cyngor Sir wedi nodi ardal ddaearyddol ddynodedig a wasanaethir gan yr ysgol a gelwir yr ardal honno'n ddalgylch yr ysgol. Mae'r manylion am ddalgylch ysgol benodol ar gael gan yr ysgol, ar wefan y Cyngor Sir, neu oddi wrth yr Awdurdod Derbyn perthnasol.

Er nad yw byw yn nalgylch yr ysgol yn gwarantu y caiff plentyn ei dderbyn i'r ysgol honno, mae'n ffactor bwysig gan y bydd hyn yn rhoi blaenoriaeth uwch i'r cais o gymharu ag unigolion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch. Mae byw o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol hefyd yn bwysig gan fod hyn yn un o'r meini prawf allweddol wrth asesu a yw rhywun yn gymwys i dderbyn cymorth gyda chludo plentyn o'r cartref i'r ysgol.

Cyn gwneud cais am i'ch plentyn gael ei dderbyn i ysgol mae'r Cyngor Sir yn argymell yn gryf eich bod yn cysylltu, yn trafod ac, os oes modd, yn ymweld â'ch ysgol leol er mwyn cael gwybod pa gyfleusterau a chyfleoedd a gynigir yno.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn anfon eu plentyn i'w hysgol leol ond mae ganddynt yr hawl i fynegi eu bod yn dewis ysgolion eraill.

## Plant sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch

Ar sail data cyfeiriadau disgyblion mis Ionawr 2017, roedd y data daearyddol mewn perthynas â dosbarthiad disgyblion yn nalgylch Ysgol Parc y Tywyn yn dangos bod 240 o'r 262 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol yn byw yn y dalgylch.

## Plant sy'n mynychu'r ysgol o'r tu allan i'r dalgylch

Ar sail data cyfeiriadau disgyblion mis Ionawr 2017, roedd y data daearyddol mewn perthynas â dosbarthiad disgyblion yn nalgylch Ysgol Parc y Tywyn yn dangos bod 22 o'r 262 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol byw y tu allan i'r dalgylch.

## Y Plant yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill

Ar sail data cyfeiriadau disgyblion mis Ionawr 2017, roedd y data daearyddol mewn perthynas â dosbarthiad disgyblion yn nalgylch Ysgol Parc y Tywyn yn dangos bod 398 disgybl o fewn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill. Roedd nifer arwyddocaol o'r disgyblion hyn naill ai'n mynychu ysgolion cynradd Porth Tywyn neu Ben-bre gan eu bod yn rhannu'r un dalgylch ag Ysgol Parc y Tywyn.

## Cyfleusterau / Gweithgareddau Ysgol Parc y Tywyn

Mae Ysgol Parc y Tywyn yn cynnig clwb brecwast i'r disgyblion yn ystod y tymor rhwng 8am ac 8:50am. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig clybiau ar ôl ysgol i ddisgyblion sy'n dymuno cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau rhwng dydd Llun a dydd Gwener tan 5:20pm bob diwrnod ysgol.

Mae clybiau ar ôl ysgol yn darparu amrywiol weithgareddau (yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn), i ymestyn profiad y disgyblion trwy eu galluogi i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau awyr agored a datblygu hunanhyder ac annibyniaeth h.y. Clwb Hwyl a Chlybiau Ysgol Iau.

## Defnydd y gymuned o adeilad Ysgol Parc y Tywyn

Nid yw'r gymuned yn defnyddio'r adeilad ar hyn o bryd.

## Darpariaeth yr Eglwys yng Nghymru

Pe bai rhieni'n dymuno anfon eu plant i ysgol â naws yr Eglwys yng Nghymru, eu hysgol agosaf fyddai Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Pentip yn Llanelli, yn amodol ar ddewis y rhieni.

## 8. Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir hon.

Mae'r cynnig hwn yn ategu gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin, 2014–2017. Bydd y cynnig yn caniatáu mwy o gyfleoedd i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Porth Tywyn a bydd yn sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Categori Iaith**

Mae Ysgol Parc y Tywyn wedi'i chategoreiddio'n ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Fel y nodwyd yn y llyfryn Derbyn i Ysgolion – Gwybodaeth i Rieni, mae hyn yn golygu, yn y Cyfnod Sylfaen, fod y disgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac, yng Nghyfnod Allweddol 2, fod o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw iaith cyfathrebu gyda disgyblion a gwaith pob dydd yr ysgol.

**Safonau**

Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff y disgyblion eu hasesu mewn meysydd dysgu gwahanol. Ar sail data 2016, roedd 83.3% o'r disgyblion wedi cyflawni Deilliant 5 o leiaf mewn iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg, tra bod 33.3% o'r disgyblion wedi cyflawni Deilliant 6 o leiaf. Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff y disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Ar sail data 2016, roedd 70.6% o'r disgyblion wedi cyrraedd Lefel 4 o leiaf yn y Gymraeg iaith gyntaf.

**Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n cynnig cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg**

Er mwyn hybu'r Gymraeg, mae'r disgyblion yn Ysgol Parc y Tywyn yn ffodus am eu bod yn gallu manteisio ar sawl clwb ar ôl ysgol a gynhelir ar nosweithiau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys 'Clwb yr Urdd', 'Clwb Côr Mawr', 'Clwb Unsain' a 'Clwb Deulais'.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

**Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisïau a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.


O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd newydd ar y sector cyhoeddus sy'n ymestyn cwmpas hyn i gynnwys oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol.

**Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb**
Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisïau a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei

ategu gan yr Asesiad o'r Effaith sy'n atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

**Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau**
Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol**



# Templed ar gyfer Asesiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| | | |
|---|---|---|
| **Yr Adran:** Addysg a Phlant | **Cwblhawyd gan (arweinydd):** Martin Jones | **Dyddiad yr asesiad cychwynnol:** Awst 2017<br>**Dyddiadau adolygu:** I'w gadarnhau |
| **Y maes a asesir:** ***(h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)*** | Newid ystod oedran Ysgol Parc y Tywyn yn gyfreithiol o 4-11 i 3-11 erbyn Tymor yr Hydref 2018-19 | |
| Ydy'r swyddogaeth/polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad dan sylw yn bodoli'n barod neu a yw'n un newydd? | Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg | |
| **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r asesiad a'r polisi? (rhestr yn unig)** | | |

- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Y Rhaglen Moderneiddio Addysg
- Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013
- Data CYBLD 2016

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, gweithdrefn neu benderfyniad arfaethedig a phwy fydd yn cael budd ohonynt.** | Nod y cynllun yw darparu meithrin ar gyfer disgyblion a staff Ysgol Gynradd Parc y Tywyn drwy gynyddu'r ystod oedran pan dderbynnir disgyblion i'r ysgol yn gyfreithiol o 4 – 11, fel y mae ar hyn o bryd, i 3 -11. Mae'r awdurdod yn ceisio safoni'r ddarpariaeth feithrin yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg fel ei gilydd yn ardaloedd Porth Tywyn a Phen-bre. Bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn symud yn ddi-dor o addysg feithrin i addysg gynradd yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mae darpariaeth feithrin eisoes yn cael ei chynnig yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg ym Mhorth Tywyn a Phen-bre | | |
| **Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:-**<br>**(1)** dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon;<br>**(2)** hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a<br>**(3)** meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau<br>(gweler y nodiadau esboniadol) | **2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchodedig o ran tri nod y ddyletswydd? Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith ganolig, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.** | **3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchodedig?** | **4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried?** |

| | | | Y Risgiau | Yr Effeithiau Cadarnhaol | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion gwarchodedig** | **Oed** | Effaith fach | | Bydd y cynnig yn darparu mynediad i ddarpariaeth feithrin mewn adeilad ysgol ar gyfer plant oedran meithrin | |
| | **Anabledd** | Effaith fach | | Bydd y feithrin yn cael ei lleoli mewn adeilad a fydd yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, gan sicrhau mynediad llawn i bawb | |
| | **Ailbennu rhywedd** | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | |
| | **Hil** | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | |
| | Crefydd/Cred | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | |
| | **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | |
| | **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | |
| | **Rhyw** | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | |
| | **Y Gymraeg** | Effaith fach | | Bydd hyn yn safoni'r ddarpariaeth feithrin yn yr ysgolion cyfrwng | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cymraeg a chyfrwng Saesneg fel ei gilydd yn ardaloedd Porth Tywyn a Phen-bre | |
| | Unrhyw faes arall | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | |

| | |
|---|---|
| **5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchodedig priodol?** | **YDW** ☒ **NAC YDW** ☐<br><br>Mae'r Swyddog Prosiect wedi cysylltu â'r Pennaeth, darparwyr meithrin a gwarchodwyr plant preifat yn ardaloedd Porth Tywyn a Phen-bre. Hefyd, mae'r aelodau lleol wedi cael gwybodaeth lawn am y cynnig |

**6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai?**

Sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth lawn drwy gydol y broses statudol

## 10. Atodiad D – Proffil Ardal

Mae Ysgol Parc y Tywyn o fewn ffiniau ward Pen-bre 2.

**Pen-bre -** (**Pen-bre 2 (SA160TP) Côd LSOA: W10000711)**

**MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU (MALLC)**
Mae Malc 2014 yn seiliedig ar ddaearyddiaeth fanwl iawn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is.

Mae MALIC 2014 yn cael ei lunio ar sail wyth maes sef Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Tai, Mynediad i Wasanaethau, yr Amgylchedd Ffisegol, a Diogelwch Cymunedol. Fe'i cyhoeddir yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ac mae 112 o'r rhain yn Sir Gaerfyrddin.

O dan y MALIC, Safle 1 yw'r safle mwyaf amddifad. Mae **Pen-bre 2** yn safle 14 o blith y 112 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yn Sir Gaerfyrddin ac yn safle 400 o blith y 1,909 LSOA yng Nghymru.

Cyflogaeth yw'r maes lle ceir y lefel uchaf o amddifadedd ym **Mhen-bre 2**, sef safle 10 yn Sir Gaerfyrddin a safle 292 yng Nghymru ar gyfer y maes hwn.

**Pen-bre 2 - Ashburnham i Barc Gwledig Pen-bre**

| LSOA | Mynegai Cyffredinol | | Meysydd: Incwm | | Cyflogaeth | | Iechyd | | Addysg | | Tai | | Mynediad at Wasanaethau | | Amgylchedd Ffisegol | | Diogelwch Cymunedol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pen-bre 2 | 14 | 400 | 11 | 412 | 10 | 292 | 30 | 535 | 14 | 413 | 14 | 435 | 49 | 459 | 110 | 1782 | 37 | 1058 |

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (cyhoeddwyd Tachwedd 2014), Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Sylwer: LSOAs a restrwyd yn safleoedd **1-112** (Sir Gaerfyrddin), 1-1909 (Cymru).

**Proffil Ardal ar gyfer Côd Post: SA16 0TP: (Côd LSOA Pen-bre 2: W10000711)**

| | |
|---|---|
| Y Boblogaeth: | 2,030 |
| Y Gymraeg: | Y ganran sy'n deall Cymraeg: 45.1%<br>Y ganran sy'n medru siarad Cymraeg: 26.8%<br>Y ganran sy'n medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg: 17.8%<br>Medru siarad Cymraeg (3-15 oed):5.3%<br>Dim sgiliau Cymraeg:54.9% |
| Nifer y plant a'r bobl ifanc: | 17.9% (0-15 oed)<br>9.9% (16-24 oed) |
| Ystyriaethau o ran y boblogaeth: | **Y mynd a dod cyffredinol o ran poblogaeth yr ardal: fesul 1,000 Nid yw'r data ar gael mwyach** |
| Ethnigrwydd: | Gwyn (Prydeinig): 97.0%<br>Gwyn (Gwyddelig): 0.7%<br>Gwyn (Arall): 0.2%<br>Cymysg (Gwyn/Du Caribïaidd): 0.4%<br>Asiaidd Prydeinig (Indiaidd) 0.1%<br>Asiaidd Prydeinig (Asiaidd arall): 0.3%<br>Grŵp ethnig arall: 0.3% |
| Crefydd: | Cristnogaeth: 60.4%<br>Bwdhaeth: 0.0%<br>Hindŵaeth: 0.0%<br>Iddewiaeth: 0.0%<br>Islam: 0.0%<br>Siciaeth: 0.1%<br>Crefydd arall: 0.4%<br>Dim crefydd: 32.8%<br>Crefydd heb ei nodi: 6.3% |
| Gradd Amddifadedd: | Cyfanswm yr aelwydydd: 908<br>Cyfanswm yr aelwydydd nad ydynt wedi'u hamddifadu mewn unrhyw ddimensiynau: 257<br>Nifer yr aelwydydd sydd wedi'u hamddifadu mewn 1-4 o ddimensiynau: 651 |

Mae'r safle newydd o fewn ffiniau ward Porth Tywyn 2.

**Porth Tywyn 2** - (**Porth Tywyn 2 (SA16 0NH)   Côd LSOA: W01000633)**

**MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU (MALLC)**

Mae MALlC 2014 yn seiliedig ar ddaearyddiaeth fanwl iawn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is. Mae MALlC 2014 yn cael ei lunio ar sail wyth maes sef Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Tai, Mynediad i Wasanaethau, yr Amgylchedd Ffisegol, a Diogelwch Cymunedol. Fe'i cyhoeddir yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ac mae 112 o'r rhain yn Sir Gaerfyrddin.
O dan y MALlC, Safle 1 yw'r safle mwyaf difreintiedig. Mae **Porth Tywyn 2** yn safle 18 yn Sir Gaerfyrddin ac yn safle 471 yng Nghymru.
Diogelwch Cymunedol yw'r maes lle ceir y lefel uchaf o amddifadedd ym **Mhorth Tywyn 2**, sef safle 12 yn Sir Gaerfyrddin a safle 412 yng Nghymru.

**Porth Tywyn 1 - Canol Porth Tywyn**
**Porth Tywyn 2 - De Porth Tywyn**
**Porth Tywyn 3 - Maestrefi Porth Tywyn**

**Porth Tywyn 2**

| LSOA | Mynegai Cyffredinol | | Incwm | | Cyflogaeth | | Iechyd | | Addysg | | Tai | | Mynediad at Wasanaethau | | Amgylchedd Ffisegol | | Diogelwch Cymunedol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Porth Tywyn 2 | 18 | 471 | 18 | 533 | 13 | 335 | 55 | 880 | 16 | 431 | 47 | 850 | 60 | 597 | 37 | 663 | 12 | 412 |

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (cyhoeddwyd Tachwedd 2014), Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Sylwer: LSOAs a restrwyd yn safleoedd **1-112** (Sir Gaerfyrddin), 1-1909 (Cymru)

**Proffil Ardal ar gyfer Côd Post SA16 0NH (Côd LSOA Porth Tywyn 2 W01000633)**

| | |
|---|---|
| Y Boblogaeth: | 1,406 |
| Y Gymraeg: | Y ganran sy'n deall Cymraeg: 46.9%<br>Y ganran sy'n medru siarad Cymraeg: 28.9<br>Y ganran sy'n medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg: 19.3%<br>Medru siarad Cymraeg (3-15 oed):5.5%<br>Dim sgiliau Cymraeg o gwbl: 53.1% |
| Nifer y plant a'r bobl ifanc: | 15.6% (0-15 oed)<br>10.5% (16-24 oed) |
| Ystyriaethau o ran y boblogaeth: | Y mynd a dod cyffredinol o ran poblogaeth yr ardal: fesul 1,000  Nid yw'r data ar gael mwyach |
| Ethnigrwydd: | Gwyn (Prydeinig): 97.2%<br>Gwyn (Gwyddelig): 0.7%<br>Gwyn (Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig): 0.1%<br>Gwyn (Arall): 1.0%<br>Cymysg (Gwyn/Du Caribïaidd): 0%<br>Cymysg (Gwyn ac Asiaidd): 0.1%<br>Cymysg (Arall): 0.2%<br>Asiaidd Prydeinig (Indiaidd) 0.1%<br>Asiaidd Prydeinig (Asiaidd arall): 0.3%<br>Du Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig; Caribïaidd: 0.1%<br>Grŵp ethnig arall: 0.1% |
| Crefydd: | Cristnogaeth: 61.6%<br>Bwdhaeth: 0.3%<br>Hindŵaeth: 0%<br>Iddewiaeth: 0.1%<br>Islam: 0.3%<br>Siciaeth: 0.1%<br>Crefydd arall: 0.8%<br>Dim crefydd: 28.2%<br>Crefydd heb ei nodi: 8.6% |
| Gradd Amddifadedd: | Cyfanswm yr aelwydydd: 703<br>Cyfanswm yr aelwydydd nad ydynt wedi'u hamddifadu mewn unrhyw ddimensiynau: 168<br>Nifer yr aelwydydd sydd wedi'u hamddifadu mewn 1-4 o ddimensiynau: 535 |

## 11. Atodiad E – Ffurflen Ymateb

A fyddech cystal â rhoi eich sylwadau ar y cynigion ynghylch y ddarpariaeth yn y dyfodol ar gyfer plant cynradd sy'n byw yn nalgylch **Ysgol Parc y Tywyn**.

Eich sylwadau:

A oes unrhyw faterion eraill y dymunwch dynnu ein sylw atynt?

**Ticiwch un o'r blychau os dymunwch gael gwybod am gyhoeddi adroddiad ymgynghori.** **Copi Cymraeg** ☐ **Copi Saesneg** ☐

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | ____________________ | Printiwch yr Enw | ____________________ |
| Cyfeiriad | ____________________ | Swydd/Categori yr ymatebydd: (e.e. rhiant) | ____________________ |
| | ____________________ | Dyddiad | ____________________ |
| | ____________________ | | |
| Côd Post | ____________________ | | |

**Sylwer: oni nodwch yn wahanol, bydd modd i'r cyhoedd weld eich sylwadau fel rhan o gofnodion ffurfiol y broses ymgynghori.**
Datgysylltwch y ffurflen hon a'i dychwelyd at: Yr Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin. SA31 3HB neu anfoner neges e-bost at aaprma@sirgar.gov.uk heb fod yn hwyrach na **Rhagfyr 17, 2017.**